# Tasg

(Craidd, sbardun 2)

1. **Mae DWY o'r ffeithiau hyn yn gywir. Ticiwch nhw**

   Cafodd Lleu ddamwain mewn car

   Efeilliaid yw Cain a Lleu

   Merch yw Cain

   Mae Cain ym mlwyddyn 7

2. **Ticiwch DDAU beth mae'r tad yn ei wneud sy'n dangos ei fod yn falch o Cain yn y gwasanaeth yn yr ysgol.**

   Gwrando'n ofalus

   Dweud hynny wrthi

   Rhoi cwtsh iddi

   Eistedd yn y rhes flaen

3. **Tanlinellwch y rhan o'r paragraff hwn sy'n dangos Cain fel person hwyliog, pryfoclyd.**

   *O ie, sôn am Mam .... o'r diwedd ar ôl tipyn o berswâd mae hi wedi cytuno i fynd adre am rai dyddiau ddechrau'r wythnos nesaf. Er y bydd hi'n rhyfedd iddi dy adael di fe wneith y newid fyd o les iddi. Felly, sori, Lleu, ond byddi di'n sdyc gyda dim ond Dad a fi o ddydd Llun tan ddydd Iau!*

4. **Dewiswch 2 o'r ansoddeiriau hyn i ddisgrifio personoliaeth Cain. Wrth ymyl y rhai rydych yn dewis rhowch dystiolaeth o'r darn darllen**

| Ansoddair | Tystiolaeth |
|---|---|
| swil | |
| heglog | |
| cwrtais | |
| swnllyd | |

5. **Pam mae Cain yn defnyddio 'ti' yn y darn darllen? Ticiwch UN**

   Mae'n siarad gyda'i brawd
   Mae'n bod yn anghwrtais
   Mae'n siarad gyda'i thad

**6. Ticiwch UN ffaith ANGHYWIR yma:**

Dydy Mam Lleu ddim wedi gadael ei mab ers iddo gael y ddamwain
Dydy Lleu ddim yn gallu siarad o gwbl
Mae gan Lleu ei iaith ei hun
Dydy Lleu ddim wedi sôn am y ddamwain

**7. Sut deulu ydy teulu Cain a Lleu? Ysgrifennwch baragraff yn eu disgrifio a chyfeiriwch at 4 ffaith o'r darn darllen.**

______________________________________________________________________________
______________________________________________________________________________
______________________________________________________________________________
______________________________________________________________________________
______________________________________________________________________________
______________________________________________________________________________